CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION PWYLLGOR CYFFREDINOL 15 GORFFENNAF 2008

Presennol
Ei Theilyngdod Y Maer- Cyng M P Jones

Cynghorwyr
W R Owen, R Anderson, H Edwards, O T Owen, W T Owen, I C Thomas, A Y Williams, A W Bohana, G Parry, A Kirk, M Davies, R Bonner Pritchard, M Thomas, W Davies

Siaradwr Gwadd : John Marjoran - Segontium
Nododd John mae ef sydd wedi ei benodi gan Segontium fel ymgynghorydd.

Ceisio darganfod
Sut mae modd i'r amgueddfa cynyddu niferoedd twristiaid
Sut mae gwella'r arddangosfeydd
A sut mae gwella hygyrchedd

Fe fydd yn darparu nifer o ddogfennau cyn y gall yr ymddiriedolwyr chwilio am arian

Y prif materion dan sylw yw:-

- Y ffaith bod yr amgueddfa ar arddangosfeydd yno ers 1973,ac er mor dda yw ei cynnwys , nad ydynt wedi cael eu diweddaru ers hynny
- Nifer o creiriau lawr yn Gaerdydd ac angen eu symud i Gaernarfon
- Diweddaru'r offer gan ddefnyddio technoleg fodern
- Angen bod yn fyw o tynfa teuluol
- Arwyddion

Disgwylir i'r gwaith ymgynghorol cael ei orffen erbyn Mis Medi, ac fydd y darganfyddiadau yn cael eu chyflwyno i'r ymddiriedolwyr pryd hynny

Diolchwyd y Maer iddo am ei gyflwyniad

1. Ymddiheuriadau
Cyng H W Roberts

2. Datgan Buddiant Personol
Cyng W T Owen- Cynllunio
Cyng H Edwards – Cynllunio
Cyng I C Thomas – Cynllunio
Cyng W R Owen – Cynllunio
Cyng R Anderson – Cynllunio

3. Eitemau brys

- E-bost G Edwards
- Llythyr Dylan Jones

4. Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y ceisiadau

Penderfynwyd

I anfon rhestr o'r argymhellion i'r awdurdod priodol

5. Cyfrifon

I gymeradwyo biliau i'w talu

Penderfynwyd

I dderbyn a'u talu

6. Cyfrifon y Cyngor

Adroddiad ar y noson

Penderfynwyd

Derbyn eu cynnwys(newid yn pennawd o dan clwb peldroed i'r enw clwb ieuenctid) ac i'r clerc danfon ymlaen yn amserol i'r archwiliwr allanol. Yr unig peth oedd angen i'r clerc tynnu sylw i oedd y taliad newydd ar gyfer Veterans

7. Bwrdd Iechyd Lleol

Cyflawni'r Weledigaeth Gyda'n Gilydd

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

8. Unllais

Rhaglen Hyfforddiant

Penderfynwyd

Rhoddodd 7 ei henwau ymlaen ac i'r clerc penderfynu pwy fydd yn mynychu pa modwl. Sef

Y Cyngor – M Davies, Y Cynghorydd- M Thomas, Y Cyngor fel cyflogydd – W T Owen a M P Jones, Deall Y Gyfraith – W R Owen a'r clerc, Cyfarfod y Cyngor – A Bohana, Deall Cyllid Cynghorau – W Ll Davies

Y sawl sydd yn mynychu i adrodd yn ôl i'r Cyngor oll

9. Rhybudd of Gynnig

Cyng. O. T. Owen

Penderfynwyd

Yn dilyn trafodaeth hir iawn penderfynwyd yn erbyn cynnig Cyng. O T Owen gan bod yr ddogfen a ddangosodd yn dweud yn glir bod modd i unrhyw un cael ddefnydd o'r cau ond hynny trwy trefniant a Caernarfon Wanderers

10.Llywodraeth Cynulliad Cymru

Adolygiad o'r trefniadau etholiadau

Penderfynwyd

Danfon llythyr i aros fel "status quo" a nodi bod wardiau Peblig a Seiont yn tyfu, ond unigolion sydd a diddordeb i ymateb ei hunain hefyd

(Gadawodd Cyng H Edwards am 7.25)

11.Swyddfa Bost – newid rhwydwaith

Gwahoddiad Par: 19 Awst 2008

Penderfynwyd

Ymateb i nodi y bydd cynrychiolydd o bob ward sydd efo Swyddfa bost yn mynychu megis

Seiont – Gerald Parry, Peblig – Arnold Bohana, Cadnant – Mel Davies a'r Maer ar gyfer y prif Swyddfa

12.Sefydliad y Merched/Cynnal Cymru

Newid yr Hinsawdd - Sesiwn cwestiynau – Sioe Frenhinol Cymru

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

13.Diweddariad Partneriaeth Caernarfon

Cyng. Richard Bonner Pritchard yn adrodd yn ôl bod

- Cynllun Y Maes yn ddod ymlaen yn dda, torri am cyfnod yr haf a gobeithio darfod erbyn diwedd Tachwedd
- Dim bwriad i newid sefyllfa unffordd Stryd Bangor
- 6/7 lle anabl am fynd i Doc Victoria
- Teitl Debbie wedi newid i Rheolwr Canolfan Doc Victoria

Penderfynwyd

Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth a diolch i Cyng. R Bonner Pritchard

14.Diweddariad o'r gweithgor

Adroddodd y Clerc fod cyfarfod positif iawn wedi cael e chynnal. Swyddogion Cyngor Sir yn awyddus i ni greu ddogfen oedd yn dangos ein blaenoriaethau (Gweler rhestr amgaeedig). Clerc angen gweld os ydi'r Cyngor yn hapus gyda'r cynnwys cyn y fedr y gweithgor parhau a cyfarfodydd dros yr haf. Mae swyddogion Cyngor Sir am ddod yn ôl ar ôl ymchwilio i mewn i gofynion ar yr ochr staffio o Toiled Mynwent Llanbeblig. Yn ogystal mi fydd cyfarfod yn cael ei cynnal i drafod llwybrau cyhoeddus yn benodol.
Wrth edrych ar y ddogfen rhaid cofio mae ystyried cymeryd rhannau o'r gwaith y bydd y cyngor ac yn adeiladu dros cyfnod o amser . E.E efallai mai cyflogi unigolyn i torri gwair yn y mynwentydd, caeau chwarae, llwybrau cyhoeddus fyddai un cam

Penderfynwyd
Derbyn yr adroddiad ar ddogfen a diolch i'r clerc

15. Diweddariad o'r Grwp allanol Y Maes

Cyng. A. Y. Williams yn adrodd bod

- Gwaith yn gorffen dros cyfnod yr haf ac yn ail gychwyn 1 Medi
- Fydd bob man sydd heb ei gwblhau yn cael ei tarmacio er mwyn diogelwch dros cyfnod yr haf
- Tydi'r Man Adloniant ddim yn bodoli bellach yn swyddogol
- Bod tacsis yn cael ddefnyddio'r bae ty allan i Sbar dros dro
- Bod y ffownten am cael treial wrth gosod plaque gan y Cymdeithas Ddinesig
- Bod yr olwyn fawr wedi cae ei gwrthod
- Nodwyd nad yw tacsis yn ddefnyddio mannau ar stryd Bangor

Penderfynwyd
Derbyn yr adroddiad a diolch i Cyng. A Y Williams

16.Diweddariad ar y 'Land Train'
Eglurhad bod y cynllun dal ar y gweill

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

17. Cwestiynau
Beth sydd yn digwydd efo'r arwyddion croeso?
Disgwyl am Cyngor Sir

18. E-bost Gareth Edwards
Yn gofyn os oes gan y Cyngor Tref Cod gwisgoedd, ac os nad oes – oes modd ystyried un

Penderfynwyd
I'r clerc ystyried y cais wrth ail ysgrifennu'r rheolau sefydlog

19.Llythyr Dylan Jones – Ceidwadwyr Cymreig

Llythyr yn nodi pryderon am ysbwriel ar y strydoedd gan fod cludiant ysbwriel busnesau ddim yn cael eu codi tan y bore wedyn

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth, gan bod y gweithgor wedi dd ar pwynt i sylw swyddogion yn cyfarfod y gweithgor

20.Diweddariad a cais y Pwyllgor Adloniant

Cafwyd cyfarfod o'r pwyllgor adloniant yn syth o flaen y Pwyllgor Cyffredinol. Cais i drefnu dau pnawn Sul o digwyddiadau ar y Maes 17 a 24 Awst rhwng 12-4 a gwario hyd at £800 y digwyddiad

Penderfynwyd

Dileu y rheolau sefydlog am yr eitem yma er mwyn medru cynnal y digwyddiadau yn ystod yr haf.

Hawl i'r pwyllgor symud ymlaen gan ystyried Iechyd a Diogelwch yn ddwys

Gorffennodd y cyfarfod am 8.20

Arwyddwyd..... Dyddiad.....